# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.30 y.h., DYDD MERCHER, 4YDD RHAGFYR, 2019**

Lleoliad

**Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2019)

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Anwen Davies**
**Simon Glyn**
**John Brynmor Hughes**
**Aled Wyn Jones**
**Gareth Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019, fel rhai cywir.

**5. MATERION CENEDLAETHOL** 9 - 11

Cyflwyno adroddiad Swyddog AHNE Llŷn.

**6. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE** 12 - 13

Cyflwyno adroddiad Swyddog AHNE Llŷn.

**7. PROSIECTAU'R UNED ANHE** 14 - 16

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

**8. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY** 17

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 11/7/19

**Yn bresennol**:

Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor) (Cadeirydd)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, John Brynmor Hughes ac Aled Wyn Jones (Cyngor Gwynedd) ynghyd â Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Glyn Roberts (Cyngor Cymuned Botwnnog) a Gruffydd Williams (Cyngor Tref Nefyn).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Swyddog AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gareth Williams a Angela Russell (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) ynghyd â Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Gillian Walker (Cyfeillion Llŷn).

## 1. CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd am y flwyddyn 2019-20. Nododd aelodau eu dymuniad i ohirio ethol Cadeirydd, tan y cyfarfod nesaf, oherwydd nid oedd yr Is-Gadeirydd yn bresennol.

**PENDERFYNWYD ethol Morgan Jones-Parry yn Gadeirydd am y cyfarfod yma.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD gohirio'r eitem i'r cyfarfod nesaf.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-Bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2018, fel rhai cywir.

Holodd aelod yng nghyswllt penderfyniad y Cyd-Bwyllgor, yn y cyfarfod diwethaf, i anfon llythyr i'r Prif Weithredwr i ofyn i'r Cyngor gael barn gyfreithiol, gan fargyfreithiwr annibynnol a oedd yn arbenigwr yn y maes, ar ddatblygiadau ym Mhlas Pistyll a Fferm Pistyll. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Cefnogi Aelodau y derbyniwyd ymateb gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor yn nodi nad oedd dim wedi ei amlygu ei hun hyd yn hyn a fyddai'n creu'r angen am gefnogaeth o'r fath.

## 6. PROSIECT AWYR DYWYLL GOGLEDD CYMRU

Eglurwyd fod yr 3 AHNE a'r Parc Cenedlaethol yn y gogledd yn cydweithio ar Brosiect Awyr Dywyll ac fod swyddog prosiect wedi ei benodi i arwain ar y gwaith.

Nododd Swyddog AHNE Llŷn y derbyniodd neges gan Dani Robertson, a oedd i roi cyflwyniad ar y prosiect, ei bod yn anffodus wedi ei dal mewn tagfeydd traffig o ganlyniad i ddamwain ar Bont Britannia.

## 7. RHAGLEN DDIGWYDDIADAU GWASANAETH AHNE LLŶN

Cyflwynodd Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn adroddiad ar raglen digwyddiadau'r Gwasanaeth AHNE. Manylwyd ar y digwyddiadau canlynol gan annog yr aelodau i rannu'r wybodaeth:

- Hyfforddiant Sgiliau Gwledig
- Teithiau Cerdded
- Arddangosfa Hanes Lleol
- Cystadleuaeth Ffotograffiaeth
- Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth o Blanhigion Estron Ymledol
- Diwrnod Awyr Dywyll

Nododd aelod yng nghyswllt y Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth o Blanhigion Estron Ymledol, bod Jac y Neidiwr yn ymledu ar hyd cynefinoedd o ardal Pistyll i Garn Boduan. Ymhelaethodd bod Gwasanaeth AHNE Cyngor Sir Ynys Môn wedi mynd i'r afael â'r broblem yn Ynys Môn. Mewn ymateb, nododd y Swyddog AHNE Llŷn y byddai'n cysylltu gyda'r Swyddog AHNE yng Nghyngor Sir Ynys Môn i gael gwybodaeth.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Swyddog AHNE Llŷn bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y broblem o ran planhigion ymledol. Eglurodd bod y Gwasanaeth AHNE yn cydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i waredu Efwr Enfawr yn yr Afon Soch.

Holodd aelod a fyddai'r chwynladdwr '*Roundup*' yn cael ei ddefnyddio wrth ymdrin â'r planhigion ymledol, gan nodi ei bryder o ran ei ddefnydd. Mewn ymateb, nododd y Swyddog AHNE Llŷn bod materion yn cael eu trafod yn y newyddion o ran effaith defnyddio'r chwynladdwr ar iechyd. Sicrhaodd mai defnydd cyfyngedig byddai o'r chwynladdwr mewn ardal benodol gan gontractwyr profiadol.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 8. PROSIECTAU YN AHNE LLŶN

Cyflwynodd Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn adroddiad ar waith y Gwasanaeth AHNE. Rhoddwyd diweddariad ar y prosiectau canlynol:

- Sbwriel Morol
- Melinoedd Llŷn
- Planhigion Estron Ymledol
- Gwella Mynediad
- Gwella Amgylchedd
- Llwybr y Morwyr

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau a gofyn cwestiynau, nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau:

- Bod Sgwad Sbwriel Llanengan yn mynd o amgylch traethau yn yr ardal yn casglu sbwriel. Roedd y gwaith yn gwneud gwahaniaeth gan ofalu am yr ardal;
- Yn dilyn stormydd bod micro blastigion yn dod i'r golwg ar draethau;
- Ym mha leoliadau y byddai'r gwaith gwaredu'r Efwr Enfawr yn yr Afon Soch yn cael ei gwblhau?
- O ran gwaith adfer wal gerrig gyda'r lôn o bentref Llithfaen at dai Cae'r Nant, a fyddai modd gwneud gwelliannau i'r ffordd?
- Ei fod yn anodd cael mynediad i fyny i Gyrn Goch;
- Bod rhywun yn gofalu am y grisiau igam-ogam o Chwarel Tyddyn Hywel. A ellir hyrwyddo'r grisiau?
- Bod Llwybr y Morwyr rhwng Nefyn a Llanbedrog / Abersoch yn arbennig o dda. Roedd angen am fwy o arwyddion gyda rhai rhannau angen sylw, gan gynnwys:
  - y llwybr o Madryn at yr hen dymp, gyda rhedyn yn tyfu'n afreolus;
  - o bopty'r llwybr pren rhwng Gors Geirch a Tyncoed, roedd y Cyngor wedi cwblhau gwaith ar y llwybr ond yr oedd angen ei ail-wneud oherwydd bod gwartheg wedi ei falurio;
  - y llwybr o Bryncynan;
  - y llwybrau pren ar Y Fach yn Abersoch.
- Byddai gweddill yr arian ar gyfer prosiect Llwybr y Morwyr yn cael ei wario ar wyro'r llwybr ger Plas Glyn y Weddw. Roedd arian dros ben oherwydd nid oedd yn bosib cwblhau gwaith tarmac ar y clogwyni i Westy'r Cliffs oherwydd ei fod mewn ardal Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);
- Bod Llwybr y Morwyr yn ardderchog a'i fod yn bwysig o ran cysylltu llwybrau;
- Bod angen rhoi sylw i'r llwybr wrth ymyl Foel Fawr, roedd Llamwyr Llŷn yn rhedeg y llwybr yma yn aml;
- Beth oedd y diweddaraf o ran y llwybr bwriedig o Bwllheli i Garnguwch?
- Bod tirfeddiannwr un cae o'r lôn yn Madryn yn fodlon i greu llwybr cyhoeddus pe byddai'r Cyngor yn rhoi ffens o amgylch y cae. A fyddai'n bosib bwrw ymlaen gyda'r trafodaethau gyda'r tirfeddiannwr?

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:

- Bod Sgwad Sbwriel Llanengan yn gwneud gwaith clodwiw a'u bod wedi derbyn cyfraniad ariannol o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer prynu offer;
- Roedd trefniant rhwng Sgwad Sbwriel Llanengan a'r Gwasanaeth Morwrol o ran casglu'r bagiau sbwriel yn dilyn ymgyrchoedd glanhau. Croesawir ymgyrchoedd o'r fath ond fe anogir eraill i sicrhau bod trefniant o'r fath yn ei le;
- Gwneir gwaith gwaredu'r Efwr Enfawr yn Saithbont a Llandegwning. Byddai'r gwaith yn parhau yn y flwyddyn bresennol ynghyd â'r flwyddyn nesaf;
- Gobeithir y gellir creu man pasio wrth gwblhau gwaith adfer wal gerrig gyda'r lôn o bentref Llithfaen at dai Cae'r Nant. Roedd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gyfrifol am y prosiect a gobeithir gwneud y gwaith yn ystod mis Medi a mis Hydref;
- Bod Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir yn cydweithio o ran mynediad i lawr i Gyrn Goch gyda Rhodwyr Llŷn;
- Mai llwybr gweithwyr i Chwarel Tyddyn Hywel oedd y grisiau igam-ogam, fe nodir yr angen i'w hyrwyddo;
- Bod gwaith ychwanegol yng nghyswllt Llwybr y Morwyr wedi ei adnabod ac ymgymerir â'r gwaith yn y misoedd nesaf. Yn dilyn hyn byddai'r Llwybr yn cael ei farchnata gan y Cyngor;
- Bod Uwch Swyddog Hawliau Tramwy (Dwyfor) wedi bod yn edrych ar y safle ger Foel Fawr;

- Rhoddir blaenoriaeth i gwblhau gwaith ar Lwybr y Morwyr cyn symud ymlaen i weithredu o ran y bwriad i greu llwybr o Bwllheli i Lithfaen;
- Bwriedir symud ymlaen o ran y llwybr cyhoeddus yn ardal Madryn.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**9. DIWEDDARIAD AR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY**

Cyflwynwyd adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn a oedd yn manylu ar sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Nodwyd mai £55,000 oedd swm y Gronfa ar ddechrau blwyddyn ariannol 2018/19 ac fe lwyddwyd i ddyrannu'r cyfan.

Nodwyd mai £55,000 oedd swm y Gronfa ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol gyda'r cyfan eisoes wedi ei glustnodi. Tynnwyd sylw at grynodeb o'r prosiectau a dderbyniodd gyfraniad gan y Gronfa.

Adroddwyd ni dderbyniwyd cadarnhad am barhad y Gronfa tu hwnt i 2019/20.

Nodwyd bod Thom Hadfield a Geraint Evans o Lywodraeth Cymru wedi ymweld â'r Gwasanaeth AHNE yn ystod mis Mai ac aethpwyd ar ymweliad i Hafod Ceiri, Amgueddfa Forwrol Llŷn, O Ddrws i Ddrws, Tafarn yr Heliwr a Phlas Carmel. Pwysleisiwyd bod yr ymweliad yn ddigwyddiad pwysig i'r Gwasanaeth AHNE gan roi cyfle i gyfleu neges gref fod y Gronfa wir yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau Llŷn.

Nododd aelod ei longyfarchiadau am yr ymweliad llwyddiannus gydag amryw o brosiectau llwyddiannus i'w dangos.

Holodd aelod a fyddai'n bosib derbyn bathodyn i'w arddangos er mwyn cydnabod cyfraniad y Gronfa tuag at brosiectau yn Nefyn. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn ei bod wedi cynnal gwaith ymchwil o ran y dull gorau ar gyfer arddangos cyfraniad y Gronfa a'i fod yn debygol mai sticeri a gynhyrchir. Nododd y byddai'n anfon rhai at yr aelod.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**10. MATERION CENEDLAETHOL**

Cyflwynodd Swyddog AHNE Llŷn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys gwybodaeth bellach am y sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru.

Nododd ymhellach i'r diweddariad a roddwyd yn y cyfarfod diwethaf ar 20 Tachwedd 2018, yn niwedd 2018 bu newid mawr o ran y swyddogion yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gweithio ar faterion y Parciau a'r AHNE (Adran Tir, Natur a Choedwigaeth). Ymhelaethodd bod tîm newydd o swyddogion yn eu lle ac fe gynhaliwyd cyfarfod ym mis Mai 2019 er cyflwyno pawb a chael trafodaeth ar y cynigion oedd wedi eu cyflwyno gan y Partneriaethau AHNE, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol. Nododd bod y cyfarfod yn gyfarfod cychwynnol ond yn adeiladol.

Eglurodd, fel cam cychwynnol, bod Llywodraeth Cymru wedi paratoi a chylchredeg papur gyda chynigion ar gyfer sefydlu Partneriaeth Tirlun Cenedlaethol Cymru. Ymhelaethodd y byddai'r sefydliad yma yn anelu i wella cydweithio, rhannu gwybodaeth ac arfer da a chreu cysylltiadau rhwng y tirluniau a sectorau eraill.

Amlygodd bod y Gymdeithas dros AHNE (a oedd yn gweithredu dros Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) wedi penodi Rheolwr Datblygu Cymru. Nododd mai pwrpas y swydd fyddai cynorthwyo Partneriaethau AHNE i weithredu blaenoriaethau Cydnerth a Gwerthfawr Llywodraeth Cymru. Nododd bod Ian Rappel, oedd yn arfer gweithio i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, wedi ei benodi i'r swydd hon (am gyfnod o 2 flynedd).

Nododd aelod pe byddai'r un statws yn cael ei roi i'r AHNE a'r hyn a oedd gan y Parciau Cenedlaethol, fe fyddai'n rhaid sicrhau bod adnoddau ariannol i wireddu.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Swyddog AHNE Llŷn bod Cynllun Rheoli'r AHNE wedi ei fabwysiadu ac fe fyddai'n gwirio'r fersiwn a oedd ar y wefan. Mewn ymateb i gwestiwn pellach, nododd y gellir rhoi copi papur o'r ddogfen yn y Llyfrgelloedd yn Nefyn a Phwllheli, ynghyd â Siop Gwynedd yn Swyddfeydd y Cyngor ym Mhwllheli.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.35yh a daeth i ben am 5.30yh

______________________________
**CADEIRYDD**

| PWYLLGOR | Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
|---|---|
| DYDDIAD | Rhagfyr 4ydd 2019 |
| TEITL | Materion Cenedlaethol |
| PWRPAS | Diweddaru Aelodau |
| ADRODDIAD GAN | Swyddog AHNE Llŷn |
| GWEITHREDIAD | Dim |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth bellach am y sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru.

1.2 Y Gweinidog gyda chyfrifoldeb dros yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol yw Hannah Blythyn AC (Plaid Lafur, ardal Delyn).

**2.0 CYDNERTH A GWERTHFAWR**

2.1 Yng Ngorffennaf 2018 cyhoeddwyd y ddogfen: "**Gwerthfawr a Chydnerth – Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol"**.

2.2 Mae'r ddogfen yn nodi **pedwar amcan** ar gyfer y tirweddau dynodedig sef:

- Eu bod yn **Lleoedd Gwerthfawr**
- Fod ynddynt **Amgylchedd Cydnerth**
- Eu bod yn cynnal **Cymunedau Cydnerth**
- Fod Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau yn mabwysiadu **Ffyrdd Cydnerth o Weithio.**

2.3 Hefyd gosodwyd 10 thema blaenoriaeth. Mae'r gofynion a'r disgwyliadau o'r Tirweddau Dynodedig yn eang, amrywiol a sylweddol. Hefyd mae'r datganiad yn nodi y bwriad i sefydlu system adolygu a rheoli perfformiad, mesur effaith y dynodiad ac effeithiolrwydd yr ochor weinyddol.

2.4 Mae Cydnerth a Gwerthfawr yn tynnu sylw at y ffaith fod gwahaniaeth mewn **statws, proffil ac adnoddau** rhwng y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**3.0 CYDRADDOLDEB GYDA'R PARCIAU CENEDLAETHOL**

3.1 Bu i'r Partneriaethau AHNE, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol gyflwyno papur ar y cyd i'r Gweinidog gyda cynigion ar gyfer cael mwy o gydraddoldeb rhwng AHNE a'r Parciau Cenedlaethol. Cyflwynwyd 12 cynnig fyddai yn cynyddu cydraddoldeb o ran **statws, proffil ac adnoddau**.

3.2 Mae’r cynigion wedi eu trafod mewn cyfarfod gyda’r Gweinidog yn niwedd 2018 a gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (Adran Tir, Natur a Choedwigaeth) yn mis Mai 2019. Bydd cyfarfod pellach i drafod y cynigion yn Rhagfyr 2019.

**4.0 CYNNYDD HYD YMA**

4.1 Fel cam cychwynnol mae Llywodraeth Cymru wedi yngynghori ar gynigion ar gyfer sefydlu **Partneriaeth Tirlun Cenedlaethol Cymru.** Pwrpas y sefydliad fyddai gwella cydweithio, rhannu gwybodaeth ac arfer da a chreu cysylltiadau rhwng y tirluniau a sectorau eraill. Disgwylir arweiniad pellach ar hyn yn fuan.

4.2 Hefyd mae’r Gymdeithas dros AHNE (sydd yn gweithredu dros Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) wedi derbyn cyllid gan Llywodraeth Cymru i gyflogi **Rheolwr Datblygu Cymru**. Bydd y swyddog yn cynorthwyo Partneriaethau AHNE i weithredu blaenoriaethau Cydnerth a Gwerthfawr Llywodraeth Cymru.

4.3 Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae’r Unedau AHNE wedi cael cyfle i roi cynigion am gyllid uniongyrchol i Lywodraeth Cymru er ariannau prosiectau. Yn y gorffennol dim ond y Parciau Cenedlaethol oedd yn derbyn y cynigion hyn. Mae gwybodaeth am rai o’r prosiectau sydd wedi eu hariannau gyda’r arian yma wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ar brosiectau.

**5.0 ADOLYGIAD O’R TIRWEDDAU DYDODEDIG YN LLOEGR**

5.1 Yn ystod y ddwy flynedd mae adolygiad o dirweddau dynodedig Lloegr (10 Parc Cenedlaethol a 34 AHNE) wedi ei gynnal dan arweiniad Julian Glover. Roedd panel o 5 unigolyn gyda gwybodaeth a phrofiad perthnasol yn cynorthwyo gyda’r adolygiad.

5.2 Dilynwyd proses debyg i’r hyn a wnaed yng Nghymru drwy ymchwil, ymgynghori a dadansoddi cyn cyhoeddi adroddiad terfynol yn Hydref 2019.

5.3 Y prif gasgliad yw fod potensial i’r Ardaloedd Dynodedig wneud llawer mwy trwy gydweithio fel teulu a dan sefydliad newydd: “Tirweddau Cenedlaethol”. Hefyd mae cyfanswm o 27 gynigion penodol o dan y penawdau canlynol:

- Tirweddau byw ar gyfer natur a phrydferthwch
- Tirweddau ar gyfer pawb
- Tirweddau byw
- Mwy o fannau arbennig
- Ffyrdd newydd o weithio

5.4 Gellir gweld copi llawn o’r adroddiad terfynol (a elwir yn “Glover Review”) a chrynodeb ar safle we Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol :

https://www.gov.uk/government/publications/designated-landscapes-national-parks-and-aonbs-2018-review

5.5 Y gobaith yw y bydd y momentwm newydd a ddaw yn sgîl yr adolygiad yn Lloegr yn hwb i symud pethau ymlaen yng Nghymru.

## 6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Derbyn yr wybodaeth

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Rhagfyr 4ydd 2019 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae paratoi Cynllun Rheoli yn un o brif gyfrifoldebau Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol o ganlyniad i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

1.2 Nodir yn y Ddeddf honno fod angen i Awdurdodau perthnasol adolygu'r Cynllun Rheoli bob pum mlynedd ar ô lei fabwysiadu'n wreiddiol. Cyfnod gweithredu y Cynllun Rheoli presennol yw 2015-20 felly mae angen dechrau'r adolygu'r Cynllun yn fuan.

1.3 Mae gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol rôl bwysig i'w chwarae yn y broses o adolygu'r Cynllun Rheoli.

**2.0 CANLLAWIAU**

2.1 Mae canllawiau wedi eu cyhoeddi i roi arweiniad i Awdurdodau ar baratoi ac adolygu'r Cynlluniau Rheoli gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru rai blynyddoedd yn ôl. Roedd bwriad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu'r canllawiau yma ond hyd yma nid yw hynny wedi digwydd.

2.2 Yn ogystal ag adolygu'r Cynllun ei hun bydd hefyd angen adolygu'r asesiadau amgylcheddol cysylltiol sef:

- **Asesiad Amgylcheddol Strategol**
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Safleoedd Ewropeaidd)**

2.3 Disgwylir y bydd Datganiadau Ardal yn cael eu cyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru yng Ngwanwyn 2020. Bydd y Datganiadau yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer adolygu'r Cynllun Rheoli.

**3.0 CYNNYDD HYD YMA**

3.1 Hyd yma mae trafodaeth gyffredinol wedi ei chynnal rhwng swyddogion y tri AHNE yng ngogledd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Trafodwyd materion fel dulliau o ymgynghori, arfer da, cydweithio i gael gwybodaeth, Datganiadau Ardal ayb.

## 4.0 AMSERLEN DRAFFT

4.1 Gan ei bod yn ddyddiau cynnar mae'n anodd cyflwyno rhaglen amser fanwl ar gyfer yr adolygiad. Y bwriad yw cael Cynllun Rheoli drafft wedi ei adolygu yn ei le erbyn diwedd 2020 trwy ddilyn yr amserlen ganlynol:

- Gaeaf 2019/2020 - Casglu gwybodaeth ddiweddar ac adolygu llwyddiant y Cynllun presennol.
- Gwanwyn/ Haf 2020 - Adolygu ac ail- ddrafftio'r Cynllun yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf, cryfderau'r Cynllun presennol, Datganiadau Ardal a Deddfau, Rheoliadau a Pholisiau cyfredol.
- Hydref 2020– Cyflwyno Cynllun Rheoli drafft diwygiedig i sylw'r Cydbwyllgor am sylwadau ac awgrymiadau.
- Tachwedd 2020 – Cyhoeddi Cynllun rheoli diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr amserlen uchod fel sail ar gyfer adolygu Cynllun Rheoli AHNE Llŷn.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Rhagfyr 4ydd 2019 |
| **TEITL** | Diweddariad ar Brosiectau'r Uned AHNE |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Aelodau |
| **AWDUR** | Elin Wyn Hughes - Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar gan Uned AHNE Llŷn, Gwasanaeth Cefn Gwlad.

**2.0 HYFFORDDIANT SGILIAU GWLEDIG**

2.1 Ar y cyd â Choleg Meirion Dwyfor, Glynllifon – cynhaliwyd cwrs codi waliau cerrig sychion yn Llithfaen ar Fedi 28ain. Roedd 5 unigolyn yn bresennol – gyda'r gwaith yn digwydd ar ran o'r Wal Fawr ar y Eifl dan ofal yr hyfforddwr John Till. Yn anffodus bu raid gohirio ail gwrs ar Hydref y 5ed oherwydd prinder enwau a tywydd gwael.

2.2 Ar Hydref y 12fed ac 19eg – bu hyfforddiant codi cloddiau ar fferm Porth Gwylan, Tudweiliog dan ofal Dilwyn Williams. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn bartner allweddol yn y prosiect. Cymrodd wyth o bobl ran yn yr hyfforddiant hwn – yn cynnwys pobl ifanc gyda chefnogaeth Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd.

**3.0 SBWRIEL MOROL**

3.1 Mae'r prosiect yma yn anelu i lanhau sbwriel oddi ar y traethau a hefyd ceisio lleihau sbwriel, yn arbennig plastig, rhag mynd i'r môr. Bydd y gwaith glanhau yn cael ei gyd-drefnu hefo Cadw Cymru'n Daclus a gwirfoddolwyr lleol.

3.2 Elfen arbrofol o'r prosiect fydd gosod tap dŵr cyhoeddus ger y toiledau yn Abersoch. Mae'r Aelod Lleol wedi bod yn gefnogol iawn i'r syniad. Y gobaith yw y bydd yn fodd i leihau gwastraff poteli plastig yn y pentref. Mae'r "ffynnon" bellach wedi ei chynhyrchu (gan gwmni lleol) ac anelir i'w gosod yn fuan.

**4.0 RHYWOGAETHAU YMLEDOL**

4.1 Defnyddiwyd cyllid prosiect rhywogaethau ymledol eleni i dargedu Canglwm Siapaneaidd ar ddwy safle sef traeth Trefor a Bryn Mynach, Nefyn. Trefnwyd y gwaith gan Ymgynghoriaeth Gwynedd a chafodd y chwistrellu ei wneud ddiwedd yr haf – sef yr amser gorau i gael effaith ar y planhigyn. Byddwn yn cadw golwg ar y safleoedd a threfu gwaith trin pellach os bydd angen.

## 5.0 TANDDAEARU GWIFRAU TRYDAN

5.1 Mae'r gwaith yma a wneir gan Scottish Power mewn cydweithrediad gyda'r Uned AHNE yn rhedeg ers sawl blwyddyn bellach. Fei'i ariannir trwy drefniant gyda OFGEM (fel y sefydliad rheoli darpariaeth trydan) sydd yn darparu cyllid i Scottish Power. Yn anffodus nid oes trefniant tebyg yn ei le cwmnïau telegyfathrebu fel BT.

5.2 Mae nifer o gynlluniau wedi eu cwblhau a chynlluniau pellach ar y gweill yn Sarn Bach, ger Dwyros, Aberdaron ac ar Foel Gron, Mynytho yn 2020. Os oes gan aelodau'r Cydbwyllgor awgrymiadau am safleoedd i'w hystyried ar gyfer tanddaearu byddai'r Uned yn falch o'u derbyn.

## 6.0 CYNNAL ASEDAU– CYFLEON GWIRFODDOLI

6.1 Rydym yn cydweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus i dacluso a chynnal gwahanol safloedd law yn llaw â darparu cyfleoedd gwirfoddoli. Dros y misoedd nesaf byddwn yn adnabod safleoedd addas ac yn hysbysebu cyfleoedd i wirfoddolwyr gymryd rhan. Rydym yn awyddus i weld gwelliant amgylcheddol a gweledol yn yr AHNE – yn ogystal â sicrhau sgiliau a phrofiad i bŵl o wirfoddolwyr fydd yn cyfrannu at ein gwaith yn y dyfodol.

## 7.0 CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIAETH AHNE

7.1 Cynhaliwyd Cystadleuaeth Ffotograffiaeth eleni – gyda'r dyddiad cau ar Hydref 25ain. Byddwn mwy o wybodaeth am y gystadleuaeth a'r enillwyr ar gael yn y cyfarfod.

## 8.0 PROSIECTAU CYFALAF – CYLLID LLYWODRAETH CYMRU

8.1 **Eglwys Carnguwch** - Mae'r gwaith yn cynnwys trwsio ac ail-osod giatiau, a gosod arwyddion i gyfeirio at yr Eglwys o gyfeiriad Llwyndyrys. Mae Eglwys Beuno Sant yn dyddio'n ôl i'r 7fed Ganrif ac yn sicr yn un o'r safloedd hanesyddol hynny sy'n cyfrannu yn fawr at amgylchedd hanesyddol yr AHNE. Bu clirio yn y fynwent hefyd – yn cynnwys barbio a thocio'r coed oedd yn bygwth strwythur yr adeilad.

8.2 **Wal derfyn Cae'r Nant -** Roedd cyflwr ac edrychiad y wal derfyn oedd gyda'r lôn o Lithfaen i fyny am dai Cae'r Nant wedi dirywio – gyda cherrig yn disgyn i'r lôn. Roedd y lôn hefyd yn gul a cherbydau yn cael trafferth i basio. Gyda chydweithrediad y tirfeddianwr, Canolfan Nant Gwrtheyrn a'r Cyngor Cymuned lleol - comisiynwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd i arwain ar y gwaith i adnewyddu'r wal a chreu bwlch fel lle pasio. Mae'r prosiect wedi gwella mynediad i'r Nant ac ardal yr Eifl ac welliant gweledol amlwg ar dirlun yr AHNE.

8.3 **Gwella llwybrau Cilan** – Bu'r Uned Hawliau Tramwy yn arwain ar y prosiect yma i wneud gwelliannau i lwybrau rhif 10, 12 a 29 ym mhlwyf Llanengan. Roedd yn gwaith yn cynnwys gosod "sleepers" dros fannau gwlyb, creu grisiau a gosod giatiau yn lle camfeydd.

8.4 **Gwella mynediad i Dir Mynediad Bwlch Mawr, Gyrn Ddu, Gyrn Goch**. Mae'r gwaith yma yn cael ei wneud ar y cyd gyda grŵp gwirfoddolwyr lleol. Mae'n cynnwys arolygu cyflwr y llwybrau yn yr ardal a chreu gwelliannau fydd yn cynnwys gosod camfeydd, clirio tyfiant, arwyddo a gosod giatiau newydd.

## 9.0 ARGYMHELLIAD

9.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 4 Rhagfyr 2019 |
| **TEITL** | Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Aelodau |
| **AWDUR** | Elin Wyn Hughes - Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

## 2.0 DIWEDDARIAD AR WARIANT 2019/20

2.1 O'r **£55,000** oedd ar gael i'r Gronfa ar ddechrau blwyddyn ariannol 2019/20 – mae'r cyfan eisoes wedi ei glustnodi. Dyma'r crynodeb:

| Cyfeirnod | Enw Prosiect | Swm |
|---|---|---|
| CDC 18.6 | Amgueddfa Forwrol Nefyn | £2,800 |
| CDC 18.16 | Awyr Dywyll Tirweddau Dynodedig Gogledd Cymru | £3,000 |
| CDC 18.17 | Gwyl Fwyd Pwllheli | £3,000 |
| CDC 19.1 | Hen Siop Plas Carmel | £11,981 |
| CDC 19.2 | Taith Tridiau Llŷn | £1,500 |
| CDC 19.3 | Hafod Ceiri | £5,300 |
| CDC 19.4 | Wal Mynwent Eglwys Clynnog Fawr | £4,319 |
| CDC 19.5 | Gwyl R S Thomas | £990 |
| CDC 19.6 | Ffynhonnau - Cadwch Gymru'n Daclus | £0 |
| CDC 19.10 | Sgyrsiau Hanes Lleol Bryncroes | £610 |
| CDC 19.11 | Capel Ceidio | £4,000 |
| CDC 19.12 | Tafarn yr Heliwr | £8,610 |
| CDC 19.14 | Arwyddion Newydd Eglwysi Bro Madryn | £500 |
| CDC 19.16 | Parêd Dewi Sant, Pwllheli | £2,080 |
| CDC 19.17 | Be Nawn Ni Heddiw? | £1,000 |
| Hawliad Gweinyddu – Gwasanaeth AHNE Llŷn | | £5,309.30 |
| | **Cyfanswm:** | **£55,000** |

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.